Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!






# Dod i adnabod

# Valériane Leblond





## Crynodeb:

**Dyma lyfr geiriau cyntaf wedi'i ddarlunio'n hyfryd, gyda dros 500 o eiriau mewn 5 iaith wahanol – Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Sbaeneg ac Wcraineg. Dyma'r pedwerydd teitl yng nghyfres Pawb a Phopeth a ysgrifennwyd ac a ddarluniwyd gan Valériane Leblond.**

## Bywgraffiad

**Cafodd Valériane Leblond ei magu yn Ffrainc, ond bellach mae'n byw yng Nghymru gyda'i phartner, pedwar mab, a chath. Mae hi'n paentio yn ei stiwdio gartref ac yn siarad Cymraeg rhugl yn ogystal â nifer o ieithoedd eraill. Mae ei gwaith celf yn aml yn ymdrin â'r syniad o berthyn ac mae ganddo naratif cryf. Mae hi'n mwynhau darlunio a phaentio, ond pan oedd hi'n fach roedd hi wir eisiau bod yn awdur oedd yn adrodd straeon. Mae Valériane wedi gwireddu ei breuddwyd ac mae bellach yn ddarlunydd ac awdures uchel ei pharch.**

### Pa ddylanwadau ac atgofion oedd yn sefyll allan yn dy blentyndod?


Rwy'n cofio fy mod bob amser yn darllen, yn darlunio ac yn cynllwynio pethau gyda fy mrawd ; ni allaf gofio diflasu byth! Roedd fy nhad yn eitha gwreiddiol, ac er ei bod hi weithiau'n anodd byw gyda rhywun mor wahanol roedd bob amser yn gwneud i mi deimlo'n arbennig ac unigryw.

### Pryd ddest ti'n ymwybodol dy fod eisiau sgwennu, oedd unrhyw ffactorau arbennig wedi cael effaith?

Roeddwn bob amser yn mwynhau ysgrifennu straeon a rhoddodd Madame Morvan, fy athrawes ysgol ym mlwyddyn 2, lyfr nodiadau i mi eu hysgrifennu. Dyna oedd yr anogaeth orau. Mae gen i lawer o ddychymyg a dal beiro i ysgrifennu a thynnu lluniau yw fy hoff beth i'w wneud heddiw.

### Pa brofiadau o lyfrgelloedd sydd wedi dylanwadu arnot yn ystod dy fywyd?

Pan o'n i'n fach roeddwn i'n mynd i'r llyfrgell bob dydd Mercher a darganfod llawer o lyfrau na fyddwn i byth wedi eu darllen fel arall. Caniataodd i mi ddarllen casgliadau cyfan a llawer o nofelau graffig a llyfrau comig na fyddem wedi gallu eu fforddio. Nawr rwy'n byw drws nesaf i lyfrgell tref Aberystwyth, ac ni allwn ddymuno am gymydog gwell.



### Pa awgrymiadau sydd gyda ti i annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er pleser?

I beidio â bod yn hunanymwybodol o ran darllen, nid yw'r oedrannau a argymhellir na'r math o lyfr yn bwysig, cyn belled â'ch bod am ei ddarllen, rhowch gynnig arni. Dyna pam mae llyfrgelloedd yn hanfodol, yn enwedig i blant.

### Rho ddyfyniad sydd wrth wraidd dy fywyd di ...

Mae'n ddywediad Ffrengig, "Tout vient à point à qui sait attendre", ac mae'n golygu bod popeth yn dod atoch chi os ydych chi'n gwybod sut i aros. Mae'n fy helpu i fod yn amyneddgar a derbyn, hyd yn oed pan nad yw pethau'n mynd fel y cynlluniwyd, y bydd yn gweithio allan yn y pen draw.

